Uwch-arolygydd Claire Parmenter
Cydlynydd Hapddigwyddiadau Sifil y Gwasanaethau Brys ar y Cyd

PAC(4) 05-13 - Paper 4

**Cyflwyniad i'r Pwyllgor Dethol 19/02/2013**

Wrth adrodd yr adroddiad, gofynnwyd i mi sylwi ar a darparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â'm rôl fel cydlynydd hapddigwyddiadau sifil y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd. Mewn perthynas â'r cais hwnnw, hoffwn nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r adolygiad wedi amlygu bwlch penodol o ran profi cam adfer digwyddiadau brys. Mae Grŵp Dysgu a Datblygu Cymru'n canolbwyntio ar y mater hwn a chyflwyniad pecyn dysgu a datblygu lefel strategol Amlasiantaeth Aur Cymru sydd wedi'i ddatblygu. Canolbwyntiodd ail ddiwrnod y digwyddiad yn llwyr ar adfer a bydd angen cynrychiolwyr i fynd i'r afael â'r materion a wynebir gan reolwyr strategol wrth adfer rhag argyfwng. Mae pob Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn cymryd rhan ac mae cyrsiau'n cychwyn ym mis Mawrth 2013.

- Mae grŵp Dysgu a Datblygu Cymru wedi datblygu a rhannu cronfa ddata o ddeunydd dysgu a gedwir ar yr allrwyd Cydnerthedd Cenedlaethol. Mae hyn wedi caniatáu osgoi dyblygu ac wedi cynorthwyo o ran cysondeb ar draws y cymunedau cydnerth yng Nghymru.

- Amlygodd yr adolygiad y ffaith nad oedd ymarfer a hyfforddi'n cynnal a phrofi cynlluniau argyfwng. Bydd yr hyfforddiant Cymru Aur yn cymryd hyn i ystyriaeth ac yn defnyddio cynlluniau argyfwng lleol fel rhagddarlleniadau a chynnwys hanfodol ar gyfer y cwrs dau ddiwrnod.

- Amlygodd yr adolygiad yr anhawster cynyddol o ran sicrhau lefelau cyllid cynaliadwy ar gyfer gweithgareddau cydnerth ar y cyd. Mae grŵp Dysgu a Datblygu Cymru wedi llwyddo i gyflawni cost-effeithlonrwydd drwy caffael dysgu a datblygu ar sail Cymru Gyfan. Mae'r cyfryngau cymdeithasol mewn pecyn argyfwng yn enghraifft dda o hyn, a dylid parhau â'r broses hon lle bo'n briodol.

- Amlygodd yr adolygiad yr angen i ymatebwyr categori 1 ddefnyddio offer cyfryngau cymdeithasol yn llawn adeg argyfwng. Mae'r hyfforddiant diweddar ar gyfryngau cymdeithasol mewn argyfwng wedi rhoi sbardun ar gyfer y datblygiad hwn ar draws Cymru, gyda nifer o fynychwyr strategol allweddol yn mynd nôl â materion i'r gweithle er mwyn mynd i'r afael â nhw. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn enghraifft dda o hyn – mae eu dilynwyr ar Twitter wedi cynyddu o lai na 100 dilynwr i 12,500 o ddilynwyr yn y chwe mis diwethaf.

Uwch-arolygydd Claire Parmenter
Cydlynydd Hapddigwyddiadau Sifil y Gwasanaethau Brys ar y Cyd